


# Gwasanaethau Lles Addysg:
## Effeithiolrwydd y cymorth y mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) yn ei ddarparu i ysgolion a rhieni / gofalwyr i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus

Medi 2026

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cynnwys

Tudalen

Crynodeb gweithredol ........ 1
Cyflwyniad ........ 4
Cefndir ........ 6
Argymhellion ........ 9
Natur ac effeithiolrwydd y cymorth ........ 10
Cyfathrebu â phartneriaid allweddol ........ 14
Cydweithio ag asiantaethau eraill ........ 17
Defnyddio data i nodi patrymau a llywio cynllunio ........ 21
Ffrydiau cyllido ........ 24
Cydymffurfio â dyletswyddau statudol ........ 27
Dulliau a sail y dystiolaeth ........ 29
Geirfa ........ 32
Cyfeiriadau ........ 34

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad thematig hwn yn archwilio pa mor effeithiol y mae Gwasanaethau Lles Addysg (GLlAau) yn cynorthwyo ysgolion, UCDau, a rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o'n harolygiadau a'n trafodaethau gyda'r GLlAau ac ysgolion (9 awdurdod lleol, 21 ysgol gynradd, 18 ysgol uwchradd a 6 ysgol bob oed) ac yn nodi nodweddion allweddol arfer effeithiol a meysydd i'w gwella.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, safonau a dilyniant dysgwyr, yn ogystal ag ar les emosiynol a chorfforol. I'r gwrthwyneb, gallai absenoldeb estynedig fod â chanlyniadau tymor hir i iechyd meddwl person ifanc a'i gyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cymorth gwerthfawr y mae'r GLlA yn ei roi i ysgolion a sut mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at nodi disgyblion sydd mewn perygl o absenoldebau parhaus a chydlynu cymorth ar gyfer teuluoedd. Mae'n pwysleisio bod perthnasoedd proffesiynol cryf rhwng swyddogion lles addysg, ysgolion ac asiantaethau partner yn sail i arfer effeithiol mewn llawer o ardaloedd. Mae hefyd yn amlygu meysydd lle gallai gwelliannau wella effeithiolrwydd y system.

## Trosolwg o ganfyddiadau

- Er bod y rhan fwyaf o GLlAau wedi darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion a theuluoedd, roedd amrywioldeb mewn arfer, capasiti gwasanaeth cyfyngedig a'r defnydd strategol anghyson o dystiolaeth yn cyfyngu ar eu gallu i sicrhau gwelliannau mewn presenoldeb ar draws y system. I gryfhau effeithiolrwydd y GLlAau, mae angen gweithredu ar lefel genedlaethol a lefel awdurdod lleol gan nad oes, ar hyn o bryd, ymagwedd gynaliadwy at swyddi presenoldeb a gwasanaethau lles, cryfhau systemau ac arweiniad data cenedlaethol, a gwella ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol.

- Ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd, roedd GLlAau yn darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion, disgyblion a theuluoedd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael â rhwystrau rhag presenoldeb. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd perthnasoedd effeithiol rhwng GLlAUau, ysgolion a theuluoedd yn cefnogi deialog adeiladol a nodi pryderon yn gynnar. Lle'r oedd swyddogion yn bresennol yn rheolaidd mewn ysgolion ac yn gweithio'n agos gyda thimau bugeiliol, roedd cymorth yn hynod effeithiol, yn aml yn gwella presenoldeb ar gyfer disgyblion unigol ac yn cryfhau ymgysylltu â theuluoedd. Fodd bynnag, roedd effaith gyffredinol y GLlAau ar leihau absenoldeb parhaus yn rhy amrywiol o hyd.

Dywedodd bron pob awdurdod lleol fod pwysau sylweddol o ran capasiti, sy'n cyfyngu ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.

- Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd cyfathrebu rhwng y GLlA, ysgolion a theuluoedd yn effeithiol, yn enwedig lle roedd swyddogion yn gweithio mewn ysgolion yn rheolaidd, gan alluogi ymgysylltu cadarnhaol â staff ysgolion a theuluoedd. Yn yr awdurdodau lleol hyn, roedd perthnasoedd proffesiynol sefydledig ac ymgyrchoedd ar draws awdurdodau yn helpu hyrwyddo negeseuon cyson am bwysigrwydd presenoldeb ac yn cefnogi ymgysylltu yn seiliedig ar berthynas â theuluoedd. Fodd bynnag, mewn ychydig o awdurdodau lleol, arweiniodd pwysau o ran capasiti a dulliau gwahanol at gyfathrebu anghyson. Yn ychwanegol, mewn mwyafrif o awdurdodau lleol, roedd ymgysylltu â theuluoedd yr oedd eu hagweddau at bresenoldeb wedi ymwreiddio'n ddyfnach ers y pandemig yn parhau i fod yn heriol.

- Roedd cydweithio â gwasanaethau eraill yn rhan bwysig o gymorth â phresenoldeb. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, roedd y GLlA yn cynnal perthnasoedd gwaith priodol â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, seicoleg addysg a gwasanaethau ieuenctid. Roedd hyn yn galluogi dealltwriaeth gyfannol o'r rhwystrau sy'n effeithio ar ddisgyblion ac yn helpu cefnogi ymatebion cydlynus. Mewn lleiafrif o awdurdodau, roedd trefniadau amlasiantaethol sefydledig yn cefnogi ymatebion cydlynus ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth. Roedd y trefniadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelu a lles. Fodd bynnag, nid oedd gwaith partneriaeth bob amser yn ddigon strategol ac roedd yn aml yn dibynnu gormod ar berthnasoedd gwaith unigol rhwng GLlAau a gwasanaethau. Roedd pwysau o ran capasiti o fewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau arbenigol, ynghyd ag ymyrraeth gynnar annatblygedig a chymorth ataliol i deuluoedd mewn rhai ardaloedd, yn cyfyngu ar amseroldeb ac effaith gyffredinol ymyrraeth amlasiantaethol ar ddeilliannau presenoldeb.

- Yn gyffredinol, roedd gan awdurdodau lleol systemau cadarn ar gyfer casglu a monitro data presenoldeb. Bron ym mhob achos, roedd awdurdodau'n casglu gwybodaeth reolaidd am bresenoldeb ac yn ei rhannu ag ysgolion i nodi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn absennol yn barhaus. Roedd llawer o awdurdodau hefyd yn dadansoddi patrymau presenoldeb ar gyfer grwpiau bregus. Mewn llawer o achosion, nid oedd arweinwyr yn defnyddio data presenoldeb yn ddigon strategol i werthuso effaith ymyriadau neu nodi tueddiadau tymor hwy. Yn ychwanegol, nid ydynt yn rhannu arfer effeithiol rhwng ysgolion yn ddigon da.

- Mae trefniadau cyllido wedi cael cryn ddylanwad ar gapasiti a sefydlogrwydd ymdrechion awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Mewn llawer o awdurdodau, galluogodd cyllid grant arweinwyr i gynyddu capasiti staffio a chryfhau gwaith ymyrraeth gynnar gyda theuluoedd. Yn aml, roedd rolau ychwanegol, fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd neu swyddogion cymorth presenoldeb, yn gwella cyfathrebu â theuluoedd ac yn cefnogi ailintegreiddio ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o fod yn absennol yn barhaus. Mae'r rolau hyn yn ychwanegol i'r gweithgarwch statudol y disgwylir i awdurdodau lleol ei gyflawni fel swyddogaeth graidd o dan y Grant Cynnal Refeniw (RSG) Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, ar draws bron pob awdurdod, mae'r rolau ychwanegol hyn yn ddibynnol ar grantiau tymor byr neu grantiau sy'n cael eu dyrannu'n flynyddol. Roedd hyn yn creu ansicrwydd, yn cyfyngu ar sefydlogrwydd y gweithlu, ac yn cyfyngu ar gynllunio strategol tymor hwy. O ganlyniad, er bod enghreifftiau o arfer effeithiol yn bodoli, roedd diffyg cysondeb, cynaliadwyedd ac alinio strategol yn y dull cyllido cyffredinol, sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaol mewn presenoldeb.

- Ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd, roedd cydymffurfio â dyletswyddau statudol yn ymwneud â phresenoldeb ysgolion yn gadarn, ar y cyfan. Roedd gan y rhan fwyaf o GLlAau brosesau ymateb graddedig clir, llwybrau uwchgyfeirio diffiniedig a threfniadau goruchwylio priodol a oedd yn cefnogi camau gweithredu cymesur pan roedd pryderon ynghylch presenoldeb yn dwysàu. Mewn llawer o ardaloedd, roedd mesurau statudol fel llythyrau rhybudd, hysbysiadau cosb benodedig a gweithrediadau cyfreithiol yn cael eu cymhwyso'n briodol mewn cydweithrediad ag ysgolion. Fodd bynnag, roedd effaith gorfodaeth statudol ar wella presenoldeb dros gyfnod yn amrywiol ac yn aml yn gyfyngedig, yn enwedig lle roedd absenoldeb yn gysylltiedig ag amgylchiadau teuluol cymhleth, pryderon ynghylch lles neu ddiffyg ymgysylltiad dwfn. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, roedd anghysondebau o ran sut roedd prosesau statudol yn cael eu cymhwyso rhwng ysgolion neu swyddogion o ganlyniad i gapasiti'r gweithle a dulliau i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus yn creu heriau ar gyfer gweithredu teg.

# Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei llythyr cylch gwaith i Estyn 2025-2026. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rôl y GLlAau o ran cefnogi ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a theuluoedd i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Mae'r adroddiad thematig hwn yn adeiladu ar ein hadroddiad yn dwyn yr enw 'Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – diweddariad ar gynnydd', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn pwysleisio manteision sylweddol mynychu'r ysgol yn rheolaidd, gan nodi ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, safonau a dilyniant dysgwyr, yn ogystal ag ar les emosiynol a chorfforol. Nodir hefyd fod sefydlu patrymau presenoldeb cryf o oedran cynnar yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, mae absenoldeb estynedig yn gysylltiedig ag anawsterau ymddygiadol a chymdeithasol, a allai fod â chanlyniadau tymor hir i iechyd meddwl person ifanc a'i gyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2023). O ystyried pwysigrwydd canolog presenoldeb i les, cynnydd a deilliannau tymor hir dysgwyr, mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlygu ac yn atgyfnerthu rôl hanfodol rhieni a gofalwyr mewn cefnogi presenoldeb cyson yn yr ysgol.

Mae absenoldebau parhaus yn parhau i greu her sylweddol i ysgolion ac awdurdodau lleol, ac mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth allweddol o hyd ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Mae gan GLlAau rôl bwysig mewn cefnogi ysgolion a theuluoedd, o ran darparu cyngor, arweiniad ac ymyrraeth i helpu gwella presenoldeb disgyblion a'u hymgysylltiad ag addysg. Mae'r adroddiad yn gwerthuso natur ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir gan GLlAau, yn cynnwys pa mor dda y maent yn gweithio gydag ysgolion, rhieni / gofalwyr ac asiantaethau partner i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Mae hefyd yn ystyried sut mae awdurdodau lleol yn monitro a gwerthuso gwaith GLlAau, sut maent yn defnyddio cyllid i gefnogi presenoldeb, a sut caiff data ei ddefnyddio i nodi tueddiadau a chynllunio cymorth. Ymhellach, mae'r adroddiad yn nodi arfer effeithiol a meysydd lle gellid cryfhau dulliau.

Amlinellir sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad yn Atodiad 1 ac roedd yn cynnwys trafodaethau â swyddogion awdurdodau lleol, yn cynnwys staff lles addysg, ymgysylltu ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, ac adolygiad o ddogfennaeth a data perthnasol. Buom hefyd yn ystyried enghreifftiau o arfer ar draws awdurdodau lleol i nodi dulliau sy'n cefnogi gwelliannau mewn presenoldeb.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a GLlAau, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio, darparu a gwerthuso cymorth i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i arweinwyr ysgolion a staff mewn ysgolion ac UCDau, ac asiantaethau partner eraill sy'n gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi presenoldeb a lles disgyblion. Gallai'r adroddiad fod yn berthnasol hefyd i rieni a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn gwella presenoldeb disgyblion. Nod y canfyddiadau yw cefnogi trafodaeth broffesiynol am arfer effeithiol a meysydd i'w datblygu wrth fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus.

## Cefndir

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn elfen hanfodol o hawl plentyn i gael addysg, ac mae fframwaith statudol clir yn sail i hyn. Mae 'Deddf Addysg' (1996), Adran 7 yn datgan:

'Dylai rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol achosi iddo gael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas—(a) i'w oedran, ei allu a'i ddoniau, ac (b) i unrhyw anghenion addysgol arbennig [ (yn achos plentyn sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr) neu anghenion dysgu ychwanegol (yn achos plentyn sydd mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru)] a allai fod ganddo, naill ai trwy fynychu ysgol neu rywle arall yn rheolaidd'.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswyddau statudol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg addas, ac yn cymryd camau rhesymol i hyrwyddo mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae *Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg: Pecyn cymorth ymarferol i helpu i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg* gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017) yn sail i'r dyletswyddau hyn, sy'n gosod disgwyliad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i sefydlu trefniadau cadarn i nodi plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn cael addysg addas. O fewn y cyd-destun hwn, mae gan GLlAau rôl weithredol ganolog o ran  galluogi awdurdodau lleol i gyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn, yn cynnwys cefnogi presenoldeb a helpu nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid trwy elfen tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, sy'n cynnwys cymorth ar gyfer gwasanaethau yn gysylltiedig â phresenoldeb fel swyddogion lles addysg, sy'n adlewyrchu rôl bwysig y gwasanaethau hyn mewn cefnogi ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr. Er bod gweithgarwch yn gysylltiedig â phresenoldeb yn flaenoriaeth a nodir o fewn yr elfen tegwch, ni chaiff cyllid ei glustnodi'n llawn ar gyfer swyddogion lles addysg. Mae awdurdodau lleol yn cadw disgresiwn dros sut caiff adnoddau eu dyrannu ar draws ystod o flaenoriaethau tegwch, sy'n gallu arwain at amrywiad yn lefel y buddsoddiad sy'n cael ei gyfeirio tuag at gymorth â phresenoldeb a darpariaeth swyddogion lles addysg.

Mae'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru, 2011) yn diffinio mai diben craidd GLlA yw cyfrannu at ymdrech yr awdurdod lleol a'r ysgol tuag at effeithiolrwydd; gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, teuluoedd a chymunedau; a chysylltu â rhwydwaith ehangach o asiantaethau, yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol. Mae eu gwaith yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys hyrwyddo polisïau presenoldeb ysgol gyfan, darparu cyngor ar arfer effeithiol, cynnal ymyriadau unigol a rhai sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, a dechrau gweithrediadau statudol ar ran yr awdurdod lleol, lle mae angen. Mae'r cyfrifoldeb eang hwn yn rhoi GLlAau mewn sefyllfa dda i gynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael â materion presenoldeb, yn enwedig absenoldeb parhaus.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio diffiniadau Llywodraeth Cymru o 'absenoldeb parhaus'. Mae absenoldeb parhaus wedi dod yn destun pryder cynyddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos, er bod cyfraddau absenoldeb cyffredinol wedi dechrau gostwng, eu bod yn parhau i fod gryn dipyn yn uwch na lefelau cyn y pandemig. Yn 2024-2025, dosbarthwyd bod 27.0% o ddisgyblion yn absennol yn barhaus, ar sail y trothwy diwygiedig o golli 10% neu fwy o sesiynau ysgol (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r newid hwn mewn diffiniad, a gyflwynwyd yn 2023, yn adlewyrchu newid polisi tuag at nodi ac ymyrryd yn gynharach (Llywodraeth Cymru, 2023). Cyn y diwygio hwn, diffiniwyd absenoldeb parhaus fel colli 20% o nifer y sesiynau ysgol angenrheidiol. Mae'r data'n amlygu anghydraddoldebau parhaus. Roedd absenoldeb parhaus yn parhau i fod gryn dipyn yn uwch ar gyfer disgyblion â darpariaeth AAA / ADY nag ar gyfer eu cyfoedion heb ddarpariaeth AAA / ADY. Yn 2024/25, roedd 47.0% o ddisgyblion oedran uwchradd a 36.4% o ddisgyblion oedran cynradd ag AAA / ADY yn absennol yn barhaus, o gymharu â 31.4% a 20.4% yn y drefn honno ar gyfer disgyblion heb ddarpariaeth AAA / ADY. Mae'r data hefyd yn amlygu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol parhaus, gyda thros hanner (50.7%) y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol yn barhaus, o gymharu â 21.1% o'u cyfoedion (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r gwahaniaethau hyn yn tanlinellu'r cysylltiad cryf rhwng presenoldeb a chyd-destunau anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae ymchwil yn dangos yn gyson gymhlethdod ffactorau sy'n dylanwadu ar fynychu'r ysgol. Mae Parentkind, 'Understanding pupil absence in schools in Wales' (2023, tud. 35), yn pwysleisio bod absenoldebau'n adlewyrchu "cyfuniad cymhleth o wahanol ffactorau ymhlith teuluoedd ac nid oes un ateb a fydd yn datrys y problemau hyn". Yn yr un modd, mae Bond et al. (2024, tud.13) yn dadlau bod "y ffactorau amlweddog sy'n effeithio ar absenoldeb ysgol yn golygu bod rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig gydag ysgolion, a thrwy ysgolion, er mwyn gallu gweithredu'r atebion cyfannol angenrheidiol ('system gyfan') i absenoldeb ysgol. Dylai gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i ddatblygu mentrau ar y cyd i wella cymorth ar gyfer plant sy'n ymddieithrio o addysg". Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd GLlAau sy'n gweithredu o fewn cyd-destun amlasiantaethol, lle mae cydweithio a rhannu gwybodaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau sylfaenol rhag mynychu.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlygu ymhellach bwysigrwydd meithrin perthnasoedd effeithiol â disgyblion a theuluoedd. Mae ymgysylltu effeithiol â theuluoedd yn dibynnu ar feithrin ymddiriedaeth, cynnal cyfathrebu gonest a meithrin partneriaethau cryf ar draws asiantaethau (Llywodraeth Cymru, 2025). Er bod mesurau statudol fel Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gael o hyd, ystyrir eu bod yn fwyaf effeithiol ar gyfer materion presenoldeb sydd heb ymwreiddio cymaint, a dylid eu defnyddio ochr yn ochr â chymorth targedig (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae hyn yn adlewyrchu

pwyslais polisi ehangach ar ddulliau ymyrraeth gynnar, atal a chefnogol yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar orfodaeth.

Er gwaethaf y fframwaith polisi hwn, mae tystiolaeth ddiweddar o adroddiad Estyn 'Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – diweddariad ar gynnydd' (Estyn, 2025) yn awgrymu bod effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer gwella presenoldeb yn parhau'n amrywiol ledled Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn darganfod, er bod awdurdodau lleol yn parhau i flaenoriaethu presenoldeb, fod effaith eu gwaith yn anghyson. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw strategaethau wedi arwain at welliannau digonol, ac mae amrywiad nodedig yn lefel y cymorth a'r her a ddarperir i ysgolion. Nododd arweinwyr ysgolion hefyd fod anghysondebau yn y defnydd a wneir o fesurau gorfodi, fel Hysbysiad Cosb Benodedig, sy'n cyfyngu ar eu gallu i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn effeithiol mewn rhai ardaloedd.

Nododd yr adroddiad hefyd fod sawl rhwystr systemig rhag gwella presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys agweddau rhieni tuag at bwysigrwydd presenoldeb, costau cynyddol yn gysylltiedig â chludiant, a'r diffyg cyllid cynaledig i gefnogi strategaethau presenoldeb hirdymor. Gall trefniadau cyllid blynyddol rwystro gallu ysgolion i gynllunio'n strategol, meithrin capasiti a darparu cymorth cyson ar gyfer eu disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r heriau hyn yn amlygu'r angen am ddull mwy cydlynus a chyson ar gyfer cymorth â phresenoldeb ar draws awdurdodau lleol.

O ystyried rôl ganolog y GLlA o fewn y dirwedd hon, mae angen clir i werthuso natur ac effeithiolrwydd y cymorth y mae'n ei ddarparu. Mae'r adroddiad thematig hwn yn ceisio darparu trosolwg cenedlaethol o arfer bresennol, gan archwilio sut caiff cymorth gan y GLlA ei gyflwyno, y graddau y mae'n diwallu anghenion ysgolion a theuluoedd, a'i effaith ar leihau absenoldeb parhaus.

# Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

1. Ddiweddaru ac atgyfnerthu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion, yn cynnwys '*Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan*', '*Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi*', a '*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*' i ddarparu cymorth cliriach, mwy cynhwysfawr a hyrwyddo arfer fwy cyson ledled Cymru wrth fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus.

2. Sefydlu model cyllido amlflwyddyn cynaliadwy a goruchwyliaeth genedlaethol gyson o wasanaethau presenoldeb a lles i gefnogi arfer effeithiol, mynd i'r afael ag anghysondebau a lleihau absenoldebau parhaus.

3. Cryfhau systemau data a chanllawiau cenedlaethol i gefnogi dadansoddiad amserol a dyfnach o batrymau presenoldeb, gan sicrhau bod data yn gadarn, yn gymaradwy ac yn cael ei gyhoeddi fel mater o drefn i gefnogi monitro a gwelliant.

**Dylai awdurdodau lleol:**

4. Wella cysondeb Gwasanaethau Lles Addysg trwy ddarparu arweiniad clir, monitro darpariaeth a chapasiti'r gweithle yn effeithiol, a rhannu arfer effeithiol.

5. Cryfhau ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol.

6. Cryfhau dadansoddi strategol a defnydd o ddata presenoldeb i gefnogi gwneud penderfyniadau amserol, nodi patrymau a thueddiadau mewn presenoldeb, yn cynnwys ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, galluogi nodi pryderon yn gynnar, a llywio ymyriadau targedig i wella ymgysylltiad a deilliannau disgyblion.

7. Gwella cyfathrebu ac ymgysylltiad â theuluoedd.

8. Cryfhau arweiniad a'i gymhwyso'n gyson i egluro disgwyliadau ar gyfer uwchgyfeirio a gorfodaeth statudol.

## Natur ac effeithiolrwydd y cymorth

At ei gilydd, roedd y GLlA ar draws yr awdurdodau lleol cyfranogol yn darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion, disgyblion a theuluoedd, ac yn chwarae rôl bwysig mewn helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag mynychu. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, dangosodd y GLlA gryfderau clir mewn meithrin perthnasoedd effeithiol, monitro absenoldebau strwythuredig a chydweithio ag ysgolion. Fodd bynnag, mae effaith gyffredinol y gwasanaethau hyn ar leihau absenoldebau parhaus yn rhy amrywiol o hyd. Er bod llawer o GLlAau yn cefnogi ysgolion a disgyblion yn effeithiol, dangosodd canfyddiadau fod bron pob awdurdod lleol yn wynebu pwysau o ran capasiti, gan gyfyngu ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar. Yn ychwanegol, mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, roedd ansawdd a chysondeb y cymorth gan y GLlA yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd perthnasoedd proffesiynol cryf rhwng swyddogion lles addysg ac ysgolion yn sail i effeithiolrwydd y cymorth gan y GLlA. Roedd yr awdurdodau lleol hyn yn gweithredu modelau clwstwr a oedd yn cryfhau parhad rhwng sectorau cynradd ac uwchradd. Lle roedd y perthnasoedd hyn wedi eu sefydlu'n dda, dywedodd ysgolion fod ymagwedd swyddogion yn hygyrch, yn ymatebol ac yn adeiladol. Roedd arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r ddeialog broffesiynol yr oedd eu Swyddog Lles Addysg yn ei darparu a sicrwydd cael swyddog wedi'i enwi a oedd yn deall cyd-destun yr ysgol ac anghenion ei disgyblion, ei theuluoedd a'i chymunedau. Roedd Swyddogion Lles Addysg sy'n gweithio ar draws clystyrau a sectorau hefyd mewn sefyllfa dda i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg o fewn teuluoedd, ac ymateb iddynt, gan alluogi cymorth mwy cydlynus a chyson wrth i ddisgyblion symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Roedd y perthnasoedd hyn yn cefnogi cyfathrebu agored am bryderon sy'n dod i'r amlwg ynghylch presenoldeb ac yn galluogi ysgolion i ofyn am gyngor cyn i faterion ymwreiddio.

Bron ym mhob awdurdod lleol, roedd y GLlA wedi datblygu systemau strwythuredig i arwain ysgolion wrth ymateb i bryderon ynghylch presenoldeb. Mewn sawl ardal, roedd y rhain yn cynnwys fframweithiau ymateb graddedig clir a oedd yn amlinellu camau monitro, ymyrraeth ac uwchgyfeirio. Roedd y prosesau hyn yn darparu eglurder i ysgolion ac yn helpu sicrhau bod pryderon yn cael eu nodi ac yr aethpwyd i'r afael â nhw mewn modd cyson a chymesur. O ganlyniad, roedd gan ysgolion ddealltwriaeth gliriach o ran pryd i ofyn am gymorth gan y GLlA a sut dylid rheoli pryderon ynghylch presenoldeb.

**GLlA Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: Model hunanwerthuso presenoldeb ar draws yr awdurdod yn gyrru gwelliant ysgolion**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fodel hunanwerthuso cadarn a strwythuredig ar waith ar draws pob ysgol. Mae swyddogion lles addysg yn gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr i ddadansoddi data presenoldeb, casglu barn disgyblion a rhanddeiliaid, a nodi meysydd targedig i'w gwella. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cryfhau perchnogaeth ysgol gyfan o bresenoldeb ac yn hyrwyddo arfer fyfyriol, yn hytrach na chydymffurfio yn unig. Dywed arweinwyr fod ffocws strategol gwell ac atebolrwydd cliriach ar gyfer presenoldeb ar draws lleoliadau, sy'n cyfrannu at welliant cyson mewn cyfraddau presenoldeb cyffredinol. Mae hyn yn hynod nodedig yn y data presenoldeb ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. Ym mlwyddyn academaidd 2024–2025, roedd ffigurau presenoldeb bron pob un o'r ysgolion uwchradd at ei gilydd, yn cyd-fynd â'u lefelau disgwyliadau, neu'n uwch, ac roedd llawer o ysgolion yn perfformio uwchlaw neu ymhell uwchlaw eu targedau.

Roedd effaith y cymorth fwyaf lle'r roedd swyddogion lles addysg yn bresennol mewn ysgolion yn rheolaidd. Yn yr achosion hyn, roedd swyddogion yn ennill dealltwriaeth fanwl o gyd-destunau disgyblion, teuluoedd a chymunedau, gan eu galluogi i deilwra'u cymorth yn fwy effeithiol. Dywedodd ysgolion fod ymgysylltu uniongyrchol â theuluoedd, yn cynnwys ymweliadau â chartrefi a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn hynod werthfawr wrth fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu ac wrth feithrin ymddiriedaeth o'r newydd lle'r oedd perthnasoedd rhwng teuluoedd ac ysgolion wedi dod dan straen. Mewn llawer o achosion, dywedodd ysgolion fod y dulliau hyn wedi arwain at bresenoldeb gwell ar gyfer disgyblion unigol, ac wedi cryfhau cydweithio rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau awdurdodau lleol.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd gwasanaethau hefyd yn datblygu dulliau cyfannol ac sy'n ystyriol o drawma i gynorthwyo disgyblion â heriau presenoldeb cymhleth. Roedd y GLlA yn cydnabod yn gynyddol effaith lles, amgylchiadau teuluol a ffactorau cymdeithasol ehangach ar allu disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, roedd ymyriadau yn aml yn cyfuno monitro presenoldeb gyda chymorth lles ehangach ac yn cydlynu gwaith gydag asiantaethau eraill. Roedd y dulliau hyn yn helpu swyddogion i ddeall achosion sylfaenol absenoldeb a chefnogi teuluoedd yn fwy sensitif ac effeithiol.

**Gwasanaethau Lles Addysg Cyngor Sir Ynys Môn: Cryfhau presenoldeb trwy ymgysylltu â theuluoedd a chymorth yn gysylltiedig â'r gymuned:**

Yng Nghyngor Ynys Môn, mae'r GLlA yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at hyrwyddo presenoldeb da trwy gydweithio cryf ag ysgolion ac asiantaethau partner. Ym mwyafrif yr achosion, mae Swyddogion Lles Addysg yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion a thimau bugeiliol i fonitro presenoldeb ac yn ymateb yn brydlon pan mae pryderon yn

codi. Mae hyn yn galluogi ysgolion i nodi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn absennol yn barhaus yn gynnar a chynllunio cymorth priodol ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd.

Mae'r awdurdod yn defnyddio cyllid Ysgolion Bro yn effeithiol i gryfhau'r gwaith hwn a chefnogi ymgysylltu agosach â theuluoedd. Er enghraifft, yn Ysgol Llanfawr, mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'r GLlA trwy'r fenter Ysgolion Bro. Mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn ymweld â chartrefi ac yn darparu cymorth targedig ar gyfer teuluoedd sy'n profi caledi ariannol neu anawsterau lles. Mae'r dull ataliol hwn, sy'n seiliedig ar berthynas, yn helpu meithrin ymddiriedaeth â rhieni a gofalwyr, ac yn eu hannog i ymgysylltu'n fwy agored â'r ysgol. Dywed arweinwyr fod y cymorth hwn wedi cyfrannu at wella ymgysylltu â theuluoedd a lleihau absenoldebau parhaus ymhlith disgyblion bregus.

Mae'r awdurdod hefyd yn cydweithio â gwasanaethau eraill i ddarparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Er enghraifft, mae darpariaeth 'Hwb', sydd wedi'i lleoli ym mhob ysgol uwchradd, yn dwyn ynghyd swyddogion o wasanaethau addysg a phlant i ddarparu cymorth lles dwys a chynorthwyo ailintegreiddio i addysg brif ffrwd. Mae'r dull cydlynus hwn yn helpu sicrhau yr eir i'r afael â phryderon ynghylch presenoldeb ochr yn ochr ag anghenion diogelu a lles ehangach.

Er bod y dulliau cydweithredol hyn yn dangos cyfraniad gwerthfawr y GLlA o ran cefnogi disgyblion a theuluoedd, mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith hirdymor yn llawn. Mae gwella presenoldeb, yn enwedig lleihau absenoldeb parhaus, yn parhau i fod yn her sylweddol i'r awdurdod lleol.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cryfderau hyn, roedd effaith gyffredinol y GLlA yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol, ac mewn rhai achosion, rhwng ysgolion o fewn yr un awdurdod. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, dywedodd ysgolion fod y cymorth a ddarperir wedi dod yn rhy weithdrefnol neu adweithiol, yn canolbwyntio ar gydymffurfio â phrosesau yn hytrach nag ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd ymgysylltiad â GLlAau yn tueddu i ddigwydd dim ond ar ôl i bryderon ynghylch presenoldeb ddwysáu yn sylweddol, gan gyfyngu ar gyfleoedd i fynd i'r afael â materion cyn i batrymau absenoldeb ymwreiddio.

Roedd pwysau o ran capasiti yn creu cryn dipyn o her i lawer o GLlAau. Dywedodd bron pob un o'r awdurdodau lleol fod beichiau achos uchel a chymhlethdod cynyddol yn anghenion teuluoedd. O ganlyniad, roedd Swyddogion Lles Addysg yn aml yn blaenoriaethu'r achosion mwyaf difrifol neu barhaus, a oedd yn lleihau'r amser sydd ar

gael ar gyfer ymgysylltu cynnar a gwaith ataliol. Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r GLlA i weithio'n rhagweithiol gydag ysgolion a theuluoedd yn gynharach, pryd y gallai cymorth fod wedi bod yn fwyaf effeithiol yn atal absenoldeb tymor hir.

Yn ystod ein cyfarfodydd, nododd ychydig o ysgolion fod ansefydlogrwydd staffio o fewn y GLlA yn effeithio ar barhad ac effeithiolrwydd y cymorth a gafwyd. Roedd newidiadau mynych mewn personél yn ei gwneud yn anodd cynnal perthnasoedd ag ysgolion a theuluoedd, ac yn tarfu ar waith achos parhaus. Lle'r oedd swyddogion yn newid yn aml, roedd angen i deuluoedd ailsefydlu ymddiriedaeth gyda gweithwyr proffesiynol newydd, gan arafu cynnydd wrth fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu. Yn aml, mae'r anghysondebau hyn wrth roi model y GLlA ar waith ar draws awdurdodau lleol yn gysylltiedig ag amrywiadau mewn trefniadau cyllido lleol presennol, sy'n gallu cyfrannu at staffio tymor byr a chyfyngu ar y gallu i ddarparu cymorth sefydlog a chyson.

Er gwaethaf yr heriau, mae GLlAau wedi rhoi ystod eang o strategaethau ar waith i fynd i'r afael ag absenoldebau, gydag achosion unigol yn dangos presenoldeb gwell. Mae'r deilliannau cadarnhaol hyn yn amlygu effaith cymorth targedig a dulliau cryfach. Mae'r rhwydwaith swyddogion ymgysylltu â theuluoedd wedi chwarae rôl mewn cefnogi gwaith y GLlA, hefyd. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb o ran sut caiff y rolau hyn eu defnyddio a'u hintegreiddio ar draws awdurdodau lleol. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, cyfrannodd prosesau manylach a chydweithio agosach rhwng ysgolion, GLlAau a thimau awdurdodau lleol at ddeilliannau presenoldeb mwy cyson, yn enwedig ar gyfer y disgyblion anoddaf eu cyrraedd, hyd yn oed lle roedd ffigurau presenoldeb cyffredinol wedi aros yn eu hunfan.

## Cyfathrebu â phartneriaid allweddol

Ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd cyfathrebu rhwng y GLlA, ysgolion a phartneriaid eraill yn gryfder nodedig, yn enwedig lle roedd swyddogion yn cynnal presenoldeb gweladwy ac yn ymgysylltu'n rheolaidd ag arweinwyr ysgolion. Mewn llawer o ardaloedd, roedd perthnasoedd proffesiynol sefydledig yn cefnogi deialog reolaidd rhwng Swyddogion Lles Addysg a staff ysgolion. Roedd ysgolion yn dweud yn aml fod swyddogion yn hygyrch ac yn darparu cyngor amserol pan roedd pryderon ynghylch presenoldeb yn codi. Lle roedd y dull cydweithredol hwn wedi'i ymgorffori, roedd yn helpu ysgolion i deimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda i fynd i'r afael â materion presenoldeb cymhleth, ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau a gweithdrefnau presenoldeb ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, roedd arfer yn amrywiol o hyd, ac roedd pwysau o ran capasiti a gwahanol ddulliau Swyddogion Lles Addysg unigol yn arwain at gyfathrebu llai cyson. Yn ychwanegol, dywedodd ysgolion fod diffyg negeseuon cyson ar draws awdurdodau i gryfhau cyfathrebu â theuluoedd i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd cyfathrebu rhwng Swyddogion Lles Addysg ac ysgolion wedi hen ennill ei blwyf. Roedd swyddogion yn cynnal cysylltiad rheolaidd ag arweinwyr ysgolion, arweinwyr presenoldeb a thimau bugeiliol trwy gyfarfodydd wedi'u hamserlennu a thrafodaethau proffesiynol. Roedd y trefniadau hyn yn cefnogi dealltwriaeth ar y cyd o brosesau presenoldeb ac eglurder rolau ac yn sicrhau bod ysgolion yn gallu elwa ar gyngor proffesiynol amserol pan roedd pryderon yn codi. Yn yr awdurdodau lleol hyn, roedd swyddogion yn weladwy o fewn cymunedau ysgol ac yn datblygu perthnasoedd proffesiynol adeiladol a oedd yn galluogi nodi pryderon ynghylch presenoldeb yn gynnar ac ymatebion cydlynus.

**Cyngor Sir Ynys Môn: Rhwydwaith hyrwyddo lles ar draws yr awdurdod yn cefnogi adnabyddiaeth gynnar ac ymatebion cydlynus**

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu rhwydwaith strwythuredig i hyrwyddo lles ar draws ysgolion Ynys Môn, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o sectorau uwchradd a chynradd yr ynys bob hanner tymor. Mae'r cyfarfodydd hyn, sy'n cael eu cydlynu gan yr Uwch Swyddog Lles Addysg, yn darparu fforwm effeithiol i ysgolion nodi pryderon yn gysylltiedig â lles a phresenoldeb sy'n dod i'r amlwg, fel anhwylderau bwyta, a chytuno ar ymatebion priodol ar y cyd. Un o gryfderau allweddol y rhwydwaith yw ei ddull rhagweithiol, ac mae'r Swyddog Lles yn dod o hyd i arbenigwyr neu asiantaethau allanol i ddarparu hyfforddiant staff a chymorth targedig lle caiff bylchau eu nodi. Mae'r model cydweithredol hwn yn cryfhau perthnasoedd proffesiynol, yn hyrwyddo cysondeb ar draws ysgolion, ac yn helpu datblygu strategaethau ataliol cydlynus yn hytrach nag

ymyriadau ynysig ar lefel ysgol. Er bod y rhwydwaith hwn yn cryfhau cydweithio ac yn cefnogi'r broses o nodi materion sy'n dod i'r amlwg yn gynharach, mae'n rhy gynnar i werthuso ei effaith ar ddeilliannau presenoldeb yn llawn. Mae gwella presenoldeb, yn enwedig lleihau absenoldeb parhaus, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r awdurdod lleol.

Roedd llawer o awdurdodau lleol hefyd wedi datblygu strategaethau cyfathrebu ar draws yr awdurdod wedi eu hanelu at hyrwyddo pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ymhlith rhieni a chymunedau. Yn aml, roedd y strategaethau hyn yn cynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, deunyddiau hyrwyddo ar gyfer ysgolion, a chyfathrebu targedig trwy lythyrau, negeseuon digidol a chyfryngau cymdeithasol. Roedd y mentrau hyn, lle roeddent yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws ysgolion, yn helpu atgyfnerthu disgwyliadau ar y cyd am bresenoldeb ac yn cynorthwyo ysgolion i gyfleu neges glir i deuluoedd am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Annog presenoldeb gwell yn yr ysgol trwy ymgyrch yr awdurdod lleol**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da yn yr ysgol ymhlith disgyblion a theuluoedd trwy ei ymgyrch 'Ddim Mewn, Colli Allan'. Mae'r ymgyrch, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2022, yn canolbwyntio ar leihau absenoldebau anawdurdodedig ac achosion o gyrraedd yn hwyr ar draws yr awdurdod. Yn rhan o'r fenter, estynnwyd gwahoddiad i ddisgyblion o ysgolion ar draws Torfaen ddylunio deunyddiau'r ymgyrch, a chafodd y dyluniadau buddugol eu harddangos ar faneri a phosteri ar draws pob ysgol. Datblygodd yr awdurdod gyfres o fideos hyrwyddo yn Gymraeg a Saesneg hefyd i atgyfnerthu negeseuon am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. Trwy fynd ati i gynnwys disgyblion yn yr ymgyrch a sicrhau bod y neges i'w gweld yn gyson ar draws ysgolion, mae'r awdurdod wedi cryfhau dealltwriaeth disgyblion a theuluoedd o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Ers cyflwyno'r ymgyrch, mae presenoldeb cyffredinol ar draws Torfaen wedi gwella.

Roedd cyfathrebu â theuluoedd hefyd yn gryfder ym mwyafrif yr ardaloedd, yn enwedig lle roedd swyddogion yn blaenoriaethu dulliau yn seiliedig ar berthynas. Yn yr awdurdodau lleol hyn, roedd staff y GLlA yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ymgysylltu â rhieni trwy gyfarfodydd, ymweliadau â chartrefi a thrafodaethau cefnogol a oedd yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau rhag mynychu'r ysgol. Roedd y dull hwn yn helpu teuluoedd i ddeall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac yn meithrin ymddiriedaeth

rhwng teuluoedd, ysgolion a'r GLlA.

**Cyngor Sir Ceredigion: Rhoi arfer berthynol ar waith ar draws yr awdurdod i gryfhau presenoldeb a lles**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi rhoi arfer berthynol ar waith ar draws yr awdurdod i gryfhau presenoldeb a lles. Mae pob ysgol wedi cael hyfforddiant a chymorth i ymgorffori dull cyson, yn seiliedig ar berthynas, gyda disgyblion a theuluoedd, wedi'i gefnogi gan swyddogion cynhwysiant a chydlynwyr lles. Mae'r dull ar y cyd hwn yn sail i weithdrefnau presenoldeb, gyda llythyrau statudol wedi eu diwygio i osgoi iaith ffurfiol, gyfreithiol a defnyddio tôn fwy esboniadol. Mae hyn yn helpu rhieni i ddeall effaith absenoldeb tra'n cynnal dull cefnogol ac adeiladol. Soniodd arweinwyr am ymgysylltu gwell â theuluoedd, mwy o gysondeb ar draws ysgolion, ac arwyddion cynnar o lai o absenoldebau parhaus. Mae hyn yn dangos gwerth blaenoriaethu ymddiriedaeth, ymyrraeth gynnar ac arfer ar y cyd ar draws y system.

Er gwaethaf y nodweddion cadarnhaol hyn, nid oedd cyfathrebu rhwng y GLlA, ysgolion, disgyblion a theuluoedd bob amser yn gyson ar draws nac o fewn awdurdodau lleol. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, roedd amrywiadau mewn arfer a newidiadau staffio yn lleihau amseroldeb a chyfathrebu teg ag ysgolion a theuluoedd.

Ar draws mwyafrif o awdurdodau lleol, dywedodd swyddogion fod ymgysylltu â theuluoedd yr oedd eu hagweddau tuag at bresenoldeb wedi ymwreiddio mwy ers y pandemig yn parhau'n heriol. Yn yr achosion hyn, nid oedd strategaethau cyfathrebu ar eu pennau eu hunain bob amser yn ddigonol i ddylanwadu ar amgyffredion rhieni am ddisgwyliadau o ran presenoldeb. O ganlyniad, roedd awdurdodau lleol yn parhau i archwilio ffyrdd o gryfhau cyfathrebu ataliol a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, mae gohebiaeth statudol a phrosesau gorfodaeth wedi cyfrannu at densiynau mewn perthnasoedd â theuluoedd. Er bod y dulliau hyn wedi cael eu hystyried yn briodol mewn nifer fach o achosion, roedd ysgolion yn parhau i gydbwyso gweithdrefnau ffurfiol â datblygu dulliau yn seiliedig ar berthnasoedd. Yn yr achosion hyn, mae teuluoedd o bryd i'w gilydd wedi amgyffred gohebiaeth gan yr awdurdod lleol yn gosbol yn hytrach na chefnogol, sydd wedi dylanwadu ar ba mor barod ydynt i ymgysylltu ag ysgolion wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch presenoldeb.

## Cydweithio ag asiantaethau eraill

Ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd, roedd cydweithio â gwasanaethau eraill yn agwedd bwysig ar waith y GLlA i wella presenoldeb. At ei gilydd, roedd gweithio mewn partneriaeth yn gryfder mewn mwyafrif o awdurdodau lleol, ac roedd GLlAau yn cynnal perthnasoedd priodol â sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd, seicoleg addysg, gwasanaethau ieuenctid a sefydliadau'r trydydd sector. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, roedd trefniadau amlasiantaethol strwythuredig yn cefnogi ymatebion cydlynus i ddisgyblion ag anghenion cymhleth ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelu a lles. Fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd y cydweithio yn amrywio. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nid oedd arweinyddiaeth strategol gwaith partneriaeth yn cael ei hymgorffori'n ddigonol, ac roedd cydlynu yn dibynnu gormod ar swyddogion neu ysgolion unigol. Roedd pwysau o ran capasiti o fewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau arbenigol, ochr yn ochr â chymorth ataliol i deuluoedd nad oedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol, yn cyfyngu ar amseroldeb ac effaith gyffredinol ymyrraeth amlasiantaethol ar wella absenoldeb.

Ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd, roedd cydweithio rhwng y GLlA ac asiantaethau eraill yn cael ei gydnabod yn elfen bwysig o waith presenoldeb effeithiol, ar y cyfan. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd y GLlA yn cynnal perthnasoedd gwaith priodol gyda gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, gwasanaethau seicoleg addysg ac ystod o sefydliadau'r trydydd sector. Roedd y partneriaethau hyn yn cefnogi dealltwriaeth gyfannol o'r rhwystrau sy'n effeithio ar ddisgyblion ac yn sicrhau bod pryderon ynghylch presenoldeb yn cael eu hystyried ochr yn ochr â diogelu, lles ac amgylchiadau teuluol ehangach.

**Cyngor Sir Ceredigion: Cydweithio amlasiantaethol effeithiol i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu'r ysgol**

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yng Nghyngor Sir Ceredigion yn dangos gwaith effeithiol, rhagweithiol a chydweithredol ag ysgolion a gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu. Mae partneriaethau cryf rhwng Swyddogion Lles Addysg, arweinwyr ysgolion a gwasanaethau cymorth ehangach yn galluogi nodi pryderon ynghylch presenoldeb a chymorth cydlynus yn amserol ar gyfer disgyblion a theuluoedd. Mae swyddogion cynhwysiant yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion i adolygu gwybodaeth am bresenoldeb a nodi disgyblion y mae eu presenoldeb yn dechrau dirywio. Trwy ddeialog broffesiynol reolaidd gyda staff ysgolion, mae swyddogion yn datblygu dealltwriaeth glir o'r amgylchiadau sy'n effeithio ar ddisgyblion unigol a'u teuluoedd. Mae'r ddealltwriaeth hon ar y cyd yn galluogi'r gwasanaeth i deilwra cymorth yn briodol ac ymateb yn gyflym pan mae pryderon yn codi.

Lle mae materion presenoldeb wedi'u cysylltu â rhwystrau ymarferol, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol gyda thimau eraill yr awdurdod lleol i sicrhau datrysiadau. Er enghraifft, pan roedd presenoldeb disgyblion yn cael ei effeithio gan ynysigrwydd daearyddol ac anawsterau cludiant, roedd timau cludiant a chynhwysiant yn cydweithio i drefnu darpariaeth tacsi a ariennir. Roedd hyn yn cael gwared â rhwystr sylweddol rhag presenoldeb rheolaidd, gan alluogi disgyblion i gyrraedd yr ysgol yn brydlon a mynychu'n fwy cyson.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cydlynu cymorth amlasiantaethol ehangach pan mae pryderon ynghylch presenoldeb yn ymwneud â lles neu amgylchiadau teuluol. Dywed arweinwyr fod y dull hwn sy'n seiliedig ar berthynas, ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, yn helpu meithrin ymddiriedaeth â theuluoedd ac yn cefnogi presenoldeb gwell dros gyfnod.

Mewn mwyafrif o awdurdodau lleol, roedd Swyddogion Lles Addysg yn cyfrannu'n briodol at gyfarfodydd a phanelau amlasiantaethol. Roedd y rhain yn cynnwys fforymau diogelu, trafodaethau ymyrraeth gynnar a threfniadau 'tîm o amgylch y teulu'. Lle roedd y prosesau hyn yn gweithredu'n effeithiol, roeddent yn galluogi gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth, cydlynu ymyriadau a datblygu cynllun cymorth ar y cyd ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd swyddogion yn chwarae rôl ganolog mewn hwyluso cymorth rhwng ysgolion ac asiantaethau allanol, gan helpu partneriaid i ddeall goblygiadau addysgol amgylchiadau teuluol cymhleth. Roedd y dull cydweithredol hwn yn helpu sicrhau nad oedd materion presenoldeb yn cael eu hystyried ar wahân a bod cymorth yn mynd i'r afael â rhwystrau fel gorbryder, trawma, profedigaeth, anawsterau cludiant neu galedi teuluol ehangach.

Fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd cydweithio amlasiantaethol yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd arweinyddiaeth strategol o ran gwaith partneriaeth wedi'i datblygu'n ddigonol. Yn yr ardaloedd hyn, roedd cydlynu yn aml yn dibynnu gormod ar swyddogion unigol neu ar flaengaredd ysgolion unigol yn hytrach na chael eu gyrru gan drefniadau clir ar draws yr awdurdod. O ganlyniad, nid oedd cydweithio yn cael ei ymgorffori'n gyson o fewn awdurdodau lleol, ac roedd y graddau yr oedd presenoldeb yn cael ei flaenoriaethu o fewn trafodaethau amlasiantaethol ehangach yn amrywio rhwng gwasanaethau. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, dywedodd ysgolion eu bod yn parhau i fod â chyfrifoldeb sylweddol am gydlynu cymorth gan wahanol asiantaethau, sy'n rôl y dylai swyddogion awdurdodau lleol ymgymryd â hi. Roedd hyn yn creu ansicrwydd ynghylch rolau ac atebolrwydd mewn achosion cymhleth.

Roedd cyfyngiadau o ran capasiti o fewn gwasanaethau partner yn effeithio ar effeithiolrwydd cydweithio mewn llawer o awdurdodau lleol, hefyd. Roedd amseroedd

aros hir am gymorth arbenigol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac asesiadau anghenion dysgu ychwanegol o fewn gwasanaethau iechyd, yn oedi cymorth ar gyfer disgyblion yr oedd eu hanawsterau presenoldeb yn gysylltiedig ag anghenion heb eu diwallu. Roedd yr oedi hwn yn cyfyngu ar effaith ataliol gwaith partneriaeth ac yn achosi i bryderon ynghylch presenoldeb ddwysáu cyn i gymorth priodol fod ar gael. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, roedd arweinwyr yn amlygu hefyd nad yw trothwyau ar gyfer ymyrraeth rhwng asiantaethau bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd, a bod presenoldeb weithiau'n cael ei ystyried yn bennaf yn fater sy'n cael ei arwain gan addysg yn hytrach na chyfrifoldeb ar y cyd ar draws gwasanaethau.

Roedd ysgolion a GLlAau a oedd fwyaf effeithiol o ran gwella presenoldeb yn ymyrryd yn gynnar, gan ddefnyddio data presenoldeb i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg ac yn ymateb yn brydlon trwy fonitro rheolaidd, cysylltiad cynnar â rhieni, a chymorth bugeiliol targedig. Roedd arfer gref yn cael ei nodweddu gan gydweithio amlasiantaethol effeithiol gyda gwasanaethau cynhwysiant a phartneriaid iechyd, ochr yn ochr ag ymgysylltu uniongyrchol â theuluoedd i feithrin ymddiriedaeth a gwella presenoldeb. Fodd bynnag, mewn ychydig o ardaloedd, nid oedd ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol i deuluoedd wedi eu datblygu'n ddigonol o hyd. Yn yr achosion hyn, roedd disgyblion yn aml yn cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol dim ond ar ôl i faterion ddwysáu, gan leihau cyfleoedd i fynd i'r afael â rhwystrau cyn i absenoldebau parhaus ymwreiddio. Dywedodd ychydig o awdurdodau lleol hefyd fod newidiadau staffio, dibyniaeth ar gyllid tymor byr, a phwysau ar wasanaethau iechyd ac ieuenctid, wedi effeithio ar gynaliadwyedd gweithio mewn partneriaeth.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: rhaglen ymyrraeth gynnar yn atal disgyblion rhag ymddieithrio**

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae rhaglen ymyrraeth gynnar yn darparu cymorth ataliol effeithiol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Mae'r rhaglen a ariennir trwy'r awdurdod lleol yn cynnig ymyrraeth anghlinigol hyblyg sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau, lles ac ailymgysylltu cynnar cyn i bryderon ynghylch presenoldeb ddwysáu i greu argyfwng. Yn nodweddiadol, mae disgyblion yn cael mynediad i sesiynau un i un rheolaidd, ochr yn ochr â gweithgareddau grŵp bach sy'n datblygu hyder, gwydnwch ac arferion cadarnhaol. Lle bo'n briodol, mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi profiad gwaith sydd wedi'i gynllunio'n ofalus neu lwybrau amgen, gan helpu disgyblion i gynnal cysylltiad ystyrlon â dysgu. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r rhaglen fel pont hanfodol rhwng cymorth bugeiliol yn yr ysgol a gwasanaethau statudol neu therapiwtig mwy ffurfiol, ac yn dweud ei bod yn helpu cynnal presenoldeb, ac yn atal ymddieithrio yn y tymor hwy. Yn ychwanegol, maent yn dweud bod y rhaglen yn helpu

lleihau'r risg y bydd disgyblion yn dod yn 'NEET' – y term a ddefnyddir i gyfeirio at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

At ei gilydd, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelu a chymorth teuluol ehangach. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd y dull cydweithredol hwn yn parhau i ddatblygu, gydag eglurder cynyddol mewn rolau, ac yn cryfhau cydlynu gan gefnogi cyfraniadau mwy cyson at ddeilliannau presenoldeb a lles ar gyfer disgyblion.

## Defnyddio data i nodi patrymau a llywio cynllunio

Ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd, roedd y GLlAau yn dangos arfer gadarn ac effeithiol, ar y cyfan, wrth gasglu a monitro data presenoldeb. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd setiau data wythnosol neu fisol rheolaidd yn cefnogi monitro amserol ac yn llywio ymyriadau targedig ar gyfer disgyblion a charfanau unigol. Roedd mwyafrif o awdurdodau lleol hefyd yn dadansoddi gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer grwpiau bregus, fel disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sydd islaw trothwy penodol, gan alluogi gwasanaethau i dargedu cymorth yn fwy manwl gywir. Fodd bynnag, roedd dyfnder, cysondeb a defnydd strategol o ddadansoddi yn amrywio'n rhy eang ar draws awdurdodau lleol. Mewn gormod o achosion, nid oedd defnydd dadansoddol o ddata yn cael ei ddatblygu'n ddigonol i gefnogi dealltwriaeth ddyfnach o achosion absenoldeb nac effaith ymyriadau yn y tymor hir.

Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd timau lles addysg yn gweithio'n agos gydag ysgolion i fonitro patrymau presenoldeb a nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Roedd cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddogion Lles Addysg a staff ysgolion yn helpu sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei ddehongli ochr yn ochr â gwybodaeth broffesiynol am ddisgyblion a'u hamgylchiadau. Mewn llawer o achosion, roedd y trafodaethau hyn yn cefnogi nodi pryderon yn gynnar a gweithredu ymyriadau graddol, gan alluogi gwasanaethau i ymateb yn gyflym pan roedd presenoldeb yn dechrau dirywio.

**Cyngor Sir Ceredigion: Defnyddio data i nodi patrymau a llywio cynllunio**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn monitro presenoldeb pob un o'r disgyblion y mae eu presenoldeb yn disgyn islaw 95% yn systematig. Mae'r awdurdod yn defnyddio trothwy clir ac ataliol i nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg ar draws ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed. Caiff data presenoldeb ei ddadansoddi'n rheolaidd gan y gwasanaeth cynhwysiant, a'i adolygu mewn trafodaethau strwythuredig gydag ysgolion unigol, gan alluogi swyddogion i olrhain patrymau dros gyfnod a gwerthuso effaith ymyriadau. Caiff disgyblion islaw'r trothwy eu blaenoriaethu ar gyfer ymyriadau cynnar, ac mae ysgolion a swyddogion cynhwysiant yn cytuno ar y camau nesaf cymesur cyn i bresenoldeb ddirywio ymhellach. Dywed arweinwyr fod y dull cyson hwn ar draws yr awdurdod wedi cryfhau adnabyddiaeth gynnar, wedi cefnogi ymyrraeth fwy amserol ac wedi cyfrannu at ostyngiad mewn absenoldebau parhaus, tra'n cynnal ffocws cryf ar arfer berthynol ac ymgysylltu â theuluoedd.

Mewn mwyafrif o awdurdodau lleol, roedd data presenoldeb yn cael ei ddefnyddio'n

briodol i nodi tueddiadau ehangach, fel absenoldebau parhaus, patrymau salwch, neu wyliau anawdurdodedig. Yn yr achosion hyn, roedd arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth i lywio cynllunio ar lefel ysgol ac awdurdod lleol, fel ei gilydd, yn cynnwys dyrannu cymorth gan Swyddogion Lles Addysg a thimau cynhwysiant ehangach. Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn dangos arfer hynod gryf trwy ddefnyddio dangosfyrddau amser real, offer hidlo ar lefel carfan a thrafodaethau meincnodi strwythuredig gydag ysgolion. Roedd y dulliau hyn yn gwella tryloywder ac yn galluogi arweinwyr i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg yn gyflymach. O ganlyniad, dywedodd ysgolion yn yr awdurdodau lleol hyn fod data presenoldeb yn cyfrannu'n ystyrlon at ddeialog broffesiynol ac yn eu helpu i fireinio strategaethau i gynorthwyo disgyblion yr oedd eu presenoldeb yn dirywio.

Fodd bynnag, nid oedd ansawdd a dyfnder y dadansoddi yn gyson ar draws pob awdurdod lleol. Mewn lleiafrif o achosion, roedd monitro yn canolbwyntio'n bennaf ar brif ffigurau presenoldeb yn hytrach nag archwilio patrymau yn fanwl neu archwilio achosion sylfaenol absenoldeb. Roedd hyn yn cael ei gymhlethu gan anghysondebau mewn data wedi'i gynhyrchu gan y gwahanol gyflenwyr meddalwedd a ddefnyddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol, a oedd yn gwneud adrodd yn gywir a dadansoddi cymharol trylwyr yn anos. O ganlyniad, nid oedd dadansoddiadau bob amser yn ystyried cynnydd grwpiau bregus penodol nac yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar bresenoldeb disgyblion. Yn yr achosion hyn, roedd data'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer monitro gweithredol yn hytrach nag i gefnogi gwerthuso dyfnach neu lywio cynllunio strategol tymor hwy. O ganlyniad, roedd awdurdodau lleol yn llai abl i nodi tueddiadau, targedu ymyriadau yn effeithiol, neu werthuso effaith eu gwaith i wella presenoldeb.

Ar draws llawer o awdurdodau lleol, dywedodd ysgolion fod mynediad at ddata cymharol yn gyfyngedig. Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth feincnodi neu gyfleoedd i ysgolion gymharu data presenoldeb ag ysgolion tebyg. Lle roedd trefniadau meincnodi ar waith, roedd dealltwriaeth ar y cyd eu bod wedi eu bwriadu i gefnogi hunanwerthuso yn hytrach na gyrru ymddygiadau cystadleuol. Roeddent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ysgolion ddysgu oddi wrth arfer effeithiol yn rhywle arall a gwerthuso'u perfformiad eu hunain o fewn cyd-destun ehangach. Fodd bynnag, nid oedd awdurdodau lleol yn gwneud defnydd digon effeithiol o ddeilliannau wedi'u modelu o setiau data uwchradd, ac yn rhy aml, yn cyfyngu cymariaethau i ysgolion o fewn eu hawdurdod eu hunain, gan gyfyngu ar feincnodi a dadansoddi ehangach. Mewn ychydig o achosion, roedd anghysondebau rhwng systemau data neu oedi wrth gael setiau data cenedlaethol hefyd yn lleihau amseroldeb a defnyddioldeb dadansoddi. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd data yn cael ei ddefnyddio'n addas i nodi pryderon, monitro achosion unigol a sbarduno ymyriadau. Fodd bynnag, roedd gwerthuso effaith ymyriadau presenoldeb yn y tymor hir yn llai datblygedig. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ba strategaethau oedd

yn cael yr effaith fwyaf na sut gellid defnyddio adnoddau yn fwyaf effeithiol i gynorthwyo disgyblion a oedd yn absennol yn barhaus.

Nododd y GLlAau a'r ysgolion fod gwerthuso effaith yn y maes hwn yn heriol. Yn aml, roedd disgyblion a oedd yn absennol yn barhaus yn cael sawl ymyrraeth ar yr un pryd, gan ei gwneud yn anodd pennu pa ddulliau a oedd fwyaf effeithiol. Yn ychwanegol, dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod angen ymdrech gynaledig i wella presenoldeb y rhan fwyaf o ddisgyblion a oedd yn absennol yn barhaus. O ganlyniad, nid oedd effaith gwaith ymyrraeth bob amser yn cael ei hadlewyrchu mewn data presenoldeb yn y tymor byr. Mewn ychydig o achosion, roedd deilliannau presenoldeb yn parhau i fod yn sefydlog er gwaethaf systemau gweithredol cadarn. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil ehangach, sy'n amlygu bod llawer o ymyriadau presenoldeb yn cynnwys sawl elfen ac yn ymatebol o ran eu natur, sy'n ei gwneud yn anodd ynysu effaith dulliau unigol neu nodi pa elfennau sydd fwyaf effeithiol (Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2022).

Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau'r defnydd dadansoddol a strategol o ddata ymhellach i uchafu effaith y gwaith hwn. Er enghraifft, byddai datblygu dadansoddiad dyfnach o batrymau ac achosion sylfaenol, cyflawni cysondeb gwell mewn meincnodi rhwng ysgolion, a gwella dulliau i werthuso effaith ymyriadau yn y tymor hir yn cefnogi hyn. Byddai adeiladu ar yr agweddau hyn yn helpu sicrhau bod data presenoldeb yn llywio gwelliannau cynaledig yn fwy cyson wrth ymgysylltu â disgyblion ac mewn deilliannau presenoldeb.

## Ffrydiau cyllido

Roedd trefniadau cyllid yn chwarae rôl sylweddol mewn pennu capasiti a sefydlogrwydd gwaith awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i gynyddu capasiti staffio a chefnogi gwaith ataliol gyda theuluoedd. Fodd bynnag, ar draws bron pob awdurdod lleol, roedd dibyniaeth ar gyllid grant tymor byr neu flynyddol yn creu ansicrwydd, sefydlogrwydd cyfyngedig o ran y gweithlu a chynllunio cyfyngedig yn y tymor hir. Ond mewn ychydig o awdurdodau lleol, dywedodd swyddogion fod cyllid grant yn cefnogi eu cyllidebau yn bwrpasol gan fod y grantiau'n cael eu clustnodi'n benodol i fynd i'r afael â phresenoldeb. Er bod llecynnau o arfer effeithiol, roedd diffyg cysondeb, cynaliadwyedd a chydlyniant strategol yn yr ymagwedd gyffredinol at ariannu gwaith i gefnogi presenoldeb da.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn strategol i gynyddu capasiti staffio yn gysylltiedig â phresenoldeb a chynhwysiant. Roedd cyllid yn cefnogi penodi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, Swyddogion Cymorth Presenoldeb a staff lles addysg ychwanegol. Dywedodd yr awdurdodau lleol hyn fod rolau o'r fath yn aml yn cryfhau ymyrraeth gynnar ac yn darparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion a theuluoedd sy'n profi rhwystrau rhag mynychu'n rheolaidd. Mewn llawer o achosion, dywedodd ysgolion fod y rolau hyn yn gwella cyfathrebu â theuluoedd, yn cefnogi ailintegreiddio ac yn cyfrannu at ymgysylltiad a phresenoldeb gwell ar gyfer grwpiau targedig o ddysgwyr.

**Cyngor Castell-nedd Port Talbot: Defnydd pwrpasol o ffrydiau cyllido i gefnogi presenoldeb**

Ar draws yr awdurdod, mae sawl cryfder yn y defnydd strategol o gyllid grant a chyllid craidd i gefnogi gwasanaethau presenoldeb a lles. Mewn llawer o ysgolion, mae cyllid wedi galluogi penodi swyddogion cymorth presenoldeb, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a staff ymyrraeth gynnar, gan gyfrannu at fodel cymorth haenog o atal i ymyrraeth statudol. Mae ychydig o ysgolion yn sôn am effaith gadarnhaol cyllid sy'n canolbwyntio ar y gymuned a chyllid adfer ar ôl COVID, yn enwedig lle mae rolau ymgysylltu â theuluoedd yn cryfhau perthnasoedd a threfniadau ymyrraeth gynnar. Mae arweinwyr yn gwerthuso mentrau a ariennir trwy gynllunio strwythuredig a phrosesau adolygu ar lefel disgybl.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, roedd arweinwyr yn defnyddio cyllid yn hyblyg hefyd i ymateb i angen a nodwyd. Er enghraifft, roedd rhai awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid

grant i beilota dulliau arloesol fel prosiectau ymgysylltu clwstwr, llwybrau darpariaeth amgen neu raglenni sy'n canolbwyntio ar les sydd wedi eu cynllunio i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mewn lleiafrif o achosion, roedd y mentrau hyn yn ffurfio rhan o fodel ymyrraeth ehangach a graddedig a oedd yn cysylltu cymorth ataliol i deuluoedd, darpariaeth fugeiliol yn yr ysgol a phrosesau lles addysg statudol. Lle roedd y gwaith hwn yn cael ei gydlynu'n dda, roedd arweinwyr yn gallu dangos effaith ansoddol gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion, perthnasoedd â theuluoedd, ac effeithiolrwydd trefniadau ymyrraeth gynnar.

Er gwaethaf y nodweddion cadarnhaol hyn, roedd gwendidau sylweddol o hyd ar draws bron pob awdurdod lleol. Yn fwyaf nodedig, roedd dibyniaeth ar gyllid grant tymor byr neu flynyddol yn creu ansicrwydd sylweddol ac yn cyfyngu ar gynllunio strategol tymor hir. Bron ym mhob awdurdod lleol, roedd cyfran sylweddol o staffio lles addysg a darpariaeth ymgysylltu â theuluoedd yn cael eu hariannu trwy grantiau wedi eu cyfyngu gan amser. Roedd hyn yn creu ansefydlogrwydd o fewn gwasanaethau. Mewn ychydig o achosion, dywedodd awdurdodau lleol fod rhaid i staff sy'n cael eu hariannu trwy grantiau gael hysbysiad blynyddol ynglŷn â'u statws cyflogaeth, a oedd yn cyfrannu at drosiant staff ac yn lleihau parhad cymorth ar gyfer ysgolion a theuluoedd. Roedd hyn, yn ei dro, yn atal lleiafrif o awdurdodau lleol rhag datblygu perthnasoedd effeithiol yn llawn ag ysgolion, disgyblion a theuluoedd.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, dywedodd arweinwyr fod mynediad cyfyngedig at gyllid dynodedig yn benodol ar gyfer presenoldeb. Yn hytrach, roeddent yn dibynnu ar yr awdurdod lleol yn defnyddio cyllid ychwanegol tymor byr i gyflogi staff i gryfhau cymorth â phresenoldeb, yn cynnwys rolau ymgysylltu â theuluoedd a lles a oedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion. Fodd bynnag, pan roedd y cyllid hwn yn dod i ben, yn aml, roedd rhaid i ysgolion ddibynnu ar gyllidebau craidd neu grantiau ehangach, fel y Grant Datblygu Disgyblion, i gynnal y cymorth hwn. Dywedodd arweinwyr ysgolion fod hyn yn creu pwysau ariannol sylweddol, ac mewn ychydig o achosion, yn lleihau'r capasiti i gynnal cymorth targedig ar gyfer disgyblion a theuluoedd bregus.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, amlygodd ysgolion fod amrywiadau o ran cael mynediad at gymorth wedi'i gyllido, yn cynnwys rolau ymgysylltu â theuluoedd a swyddogion cymorth presenoldeb, yn enwedig rhwng sectorau cynradd ac uwchradd. Yn yr achosion hyn, roedd trefniadau cyllid yn esblygu, a dywedodd ysgolion fod gwahanol lefelau o eglurder o amgylch meini prawf dyrannu a chynllunio tymor hwy.

At ei gilydd, roedd cyllid grant yn galluogi llawer o awdurdodau lleol i gryfhau presenoldeb, cefnogi capasiti a chyflwyno dulliau arloesol i wella ymgysylltiad disgyblion. Roedd y datblygiadau hyn yn cefnogi ffocws cynyddol ar bresenoldeb. Fodd bynnag, roedd y ddibyniaeth bresennol ar gyllid tymor byr yn creu risgiau cynaliadwyedd sylweddol. Heb fwy o sefydlogrwydd ariannol tymor hir, cynllunio strategol cliriach a gwerthuso effaith yn

gryfach, roedd llawer o awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd ymgorffori arfer effeithiol a sicrhau gostyngiadau cynaledig mewn absenoldebau parhaus dros gyfnod.

## Cydymffurfio â dyletswyddau statudol

Ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd, roedd cydymffurfio â dyletswyddau statudol yn ymwneud â phresenoldeb ysgol yn gadarn, ar y cyfan. Roedd gan y rhan fwyaf o GLlAau brosesau ymateb graddedig clir, llwybrau uwchgyfeirio diffiniedig a threfniadau goruchwylio priodol. Roedd y fframweithiau hyn yn cynorthwyo ysgolion a swyddogion i gymryd camau gweithredu cymesur pan roedd pryderon ynghylch presenoldeb yn dwysáu, ac yn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni. Mewn llawer o ardaloedd, roedd ymyriadau statudol fel Hysbysiad Cosb Benodedig, llythyrau rhybudd a phrosesau cyfreithiol yn cael eu defnyddio'n briodol ac mewn cydweithrediad ag ysgolion. Fodd bynnag, dangosodd arweinwyr awdurdodau lleol ac ysgolion fod effaith gyffredinol gorfodaeth statudol ar welliant cynaledig mewn presenoldeb yn amrywiol ac yn aml yn gyfyngedig, yn enwedig lle roedd absenoldeb yn gysylltiedig ag amgylchiadau teuluol cymhleth, pryderon ynghylch lles neu batrymau ymddieithrio sydd wedi ymwreiddio. Yn ychwanegol, roedd anghysondebau wrth gymhwyso prosesau statudol rhwng ysgolion neu swyddogion mewn lleiafrif o ardaloedd yn creu heriau ar gyfer gweithredu teg.

Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd arweinwyr wedi sefydlu polisïau ac arweiniad clir i gefnogi cydymffurfio â dyletswyddau statudol. Yn gyffredinol, roedd y polisïau hyn yn cyd-fynd â fframweithiau ymateb graddedig a oedd yn amlinellu'r camau cymorth, monitro ac uwchgyfeirio cyn ymyrraeth gyfreithiol ffurfiol. Roedd Swyddogion Lles Addysg fel arfer yn gweithio'n agos ag ysgolion i adolygu pryderon ynghylch presenoldeb a phennu pan roedd achosion yn bodloni'r trothwyau cytûn ar gyfer camau gweithredu statudol. Dywedodd llawer o ysgolion eu bod yn cael cyngor ac arweiniad priodol gan y GLlA wrth ystyried mesurau gorfodi. Roedd y dull cydweithredol hwn yn helpu sicrhau bod prosesau statudol yn cael eu cymhwyso'n gymesur a bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan ddeialog broffesiynol rhwng ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol.

Ar draws llawer o awdurdodau lleol, roedd ymyriadau statudol yn cael eu defnyddio'n rhan o strategaeth ehangach a oedd yn cyfuno gorfodaeth â dulliau perthynol ac ataliol. Mewn llawer o enghreifftiau, roedd llythyrau rhybudd neu Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhoi arwydd clir i deuluoedd am ddifrifoldeb absenoldebau parhaus ac yn atgyfnerthu disgwyliadau o amgylch presenoldeb rheolaidd. Lle'r oeddent yn cael eu defnyddio'n briodol, gallai'r mesurau hyn arwain at welliannau tymor byr mewn presenoldeb ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion. Yn ychwanegol, roedd llwybrau statudol clir yn rhoi sicrwydd i arweinwyr ysgolion fod mecanweithiau ffurfiol ar gael pan roedd strategaethau cymorth cynharach wedi cael eu dihysbyddu.

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth ar draws yr awdurdodau lleol a adolygwyd yn awgrymu

mai anaml yr oedd gorfodaeth statudol yn unig yn arwain at welliannau cynaledig mewn presenoldeb. Mewn llawer o awdurdodau lleol, dywedodd arweinwyr, er y gallai Hysbysiad Cosb Benodedig sbarduno newidiadau dros dro mewn ymddygiad, nad oedd y gwelliannau hyn yn aml yn para'n hir. Roedd presenoldeb yn aml yn dirywio eto wedi i'r cyfnod gorfodi uniongyrchol ddod i ben. Yn ychwanegol, roedd effaith gorfodaeth statudol yn gyfyngedig, yn enwedig lle roedd absenoldeb yn gysylltiedig â ffactorau mwy cymhleth fel gorbryder, anawsterau iechyd meddwl, argyfwng teuluol neu batrymau o ymddieithrio o addysg sydd wedi ymwreiddio.

Mewn tua hanner yr awdurdodau lleol a adolygwyd, nododd ysgolion fod anghysondebau o ran gweithredu prosesau statudol rhwng swyddogion ac awdurdodau lleol yn lleihau tegwch ac eglurder, yn enwedig o amgylch absenoldebau gwyliau. Yn yr achosion hyn, roedd yn arwain at annhegwch canfyddedig wrth gymhwyso mesurau statudol fel Hysbysiad Cosb Benodedig a llai o gysondeb o ran negeseuon.

Roedd gofynion gweinyddol yn gysylltiedig â gorfodaeth statudol hefyd yn creu heriau i'r GLlA. Roedd angen cryn dipyn o amser ac adnoddau ar gyfer paratoi dogfennaeth, gweithrediadau cyfreithiol neu ymyriadau statudol eraill. Mewn ychydig o achosion, dywedodd swyddogion fod y baich gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â gorfodaeth yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith ataliol gydag ysgolion a theuluoedd. Gallai'r pwysau hwn leihau capasiti gwasanaethau i ymyrryd yn gynharach a mynd i'r afael â rhwystrau sylfaenol rhag mynychu cyn i achosion gyrraedd trothwyau statudol.

Yn ychwanegol, soniodd ychydig o awdurdodau lleol am ganlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig â gweithgarwch gorfodi. Yn benodol, roedd tystiolaeth y gallai defnydd cynyddol o gamau gweithredu statudol gyfrannu at gynnydd mewn addysg ddewisol yn y cartref mewn rhai amgylchiadau, wrth i deuluoedd geisio osgoi cosbau ffurfiol neu brosesau cyfreithiol. Er bod hyn yn parhau i fod yn fater cymharol gyfyngedig, ar y cyfan, roedd yn amlygu'r angen am roi ystyriaeth ofalus i sut caiff mesurau gorfodi eu defnyddio ochr yn ochr ag ymgysylltiad cefnogol â theuluoedd.

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn cysylltiad â phresenoldeb yn briodol. Dangosodd y dystiolaeth fod mesurau gorfodi yn ffurfio rhan o ystod ehangach o ymagweddau at fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus, ochr yn ochr â gwaith ataliol a gwaith yn seiliedig ar berthynas. Ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd y dulliau hyn yn parhau i ddatblygu, gyda sylw cynyddol i gysondeb a gwerthuso'u cyfraniad at ddeilliannau presenoldeb.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaethau â 9 GLlA awdurdodau lleol, 21 ysgol gynradd, 18 ysgol uwchradd a 6 ysgol bob oed, a dadansoddiad o adroddiadau arolygu. Dewiswyd awdurdodau lleol ac ysgolion i ffurfio rhan o'r sampl lle nad oeddent mewn categori gweithgarwch dilynol, ddim wedi cael eu harolygu yn y chwe mis diwethaf ac nid oedd disgwyl iddynt gael eu harolygu yn y chwe mis nesaf. Dewiswyd y darparwyr hyn i gynrychioli gwasgariad daearyddol ac economaidd-gymdeithasol eang, ac roeddent yn cynnwys lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Cynhaliwyd yr holl drafodaethau ar-lein yn ystod tymor y gwanwyn 2026.

Yn ystod cyfnod paratoi'r adroddiad thematig hwn, defnyddiodd yr awdur ChatGPT i gefnogi agweddau ar y broses ysgrifennu. Roedd hyn yn cynnwys cymorth â chyfosod gwybodaeth a gasglwyd o ymweliadau ag ysgolion, strwythuro adrannau o'r adroddiad, mireinio iaith er eglurder a hygyrchedd a chrynhoi negeseuon allweddol. Ym mhob cam, bu'r awdur yn adolygu, yn golygu ac yn addasu cynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) i sicrhau cywirdeb, perthnasedd ac aliniad â nodau'r adroddiad.

Hoffai Estyn ddiolch i'r canlynol am gymryd rhan yn yr adolygiad thematig hwn:

| **Ysgol** | **Awdurdod Lleol** | **Sector** |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Y Coed-duon | Caerffili | Uwchradd |
| Ysgol Sefydledig Brynmawr | Blaenau Gwent | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd Coedffranc | Castell-nedd Port Talbot | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Croesyceiliog | Torfaen | Cynradd |
| Ysgol Uwchradd Croesyceiliog | Torfaen | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd Cwmnedd | Castell-nedd Port Talbot | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Garnteg | Torfaen | Cynradd |
| Ysgol Uwchradd Islwyn | Caerffili | Uwchradd |
| Ysgol Gyfun Llangatwg | Castell-nedd Port Talbot | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd New Inn | Torfaen | Cynradd |
| Ysgol Gymunedol Doc Penfro | Sir Benfro | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Rhisga | Caerffili | Cynradd |
| Ysgol Gymunedol Cenydd Sant | Caerffili | Uwchradd |
| Ysgol Gyfun Tredegar | Blaenau Gwent | Uwchradd |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Bae Baglan | Castell-nedd Port Talbot | Pob Oed |
| Ysgol Bod Alaw | Conwy | Cynradd |
| Ysgol Bro Lleu | Gwynedd | Cynradd |
| Ysgol Bro Pedr | Ceredigion | Pob Oed |
| Ysgol Brynrefail | Gwynedd | Uwchradd |
| Ysgol Caer Elen | Sir Benfro | Pob Oed |
| Ysgol David Hughes | Ynys Môn | Uwchradd |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Gwynedd | Uwchradd |
| Ysgol Glancegin | Gwynedd | Cynradd |
| Ysgol Glannau Gwaun | Sir Benfro | Cynradd |
| Ysgol Greenhill | Sir Benfro | Uwchradd |
| Ysgol Gyfun Llangefni | Ynys Môn | Uwchradd |
| Ysgol Gymraeg Caerffili | Caerffili | Cynradd |
| Ysgol Gymraeg Gwynllyw | Torfaen | Pob Oed |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur | Castell-nedd Port Talbot | Pob Oed |
| Ysgol Gynradd Aberteifi | Ceredigion | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Bodedern | Ynys Môn | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Corn Hir | Ynys Môn | Cynradd |
| Ysgol Gynradd T Llew Jones | Ceredigion | Cynradd |
| Ysgol Hafan y Môr | Sir Benfro | Cynradd |
| Ysgol John Bright | Conwy | Uwchradd |
| Ysgol Llandrillo yn Rhos | Conwy | Cynradd |
| Ysgol Llanfawr | Ynys Môn | Cynradd |
| Ysgol Panteg | Torfaen | Cynradd |
| Ysgol Penglais | Ceredigion | Uwchradd |
| Ysgol Penrhyn Dewi | Sir Benfro | Pob Oed |
| Ysgol Treferthyr | Gwynedd | Cynradd |
| Ysgol Tryfan | Gwynedd | Uwchradd |
| Ysgol Uwchradd Aberteifi | Ceredigion | Uwchradd |
| Ysgol Wirfoddol Myfenydd | Ceredigion | Cynradd |
| Ysgol y Creuddyn | Conwy | Uwchradd |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ysgolion bro** | Ysgolion sy'n meithrin partneriaeth gref â theuluoedd, yn ymateb i anghenion eu cymuned ac yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill |
| **Ymyrraeth gynnar** | Cymorth cynnar i atal pryderon ynghylch presenoldeb rhag dwysáu |
| **Swyddog Lles Addysg (SLlA)** | Swyddog awdurdod lleol, y mae ei brif rôl yn cynnwys cefnogi ysgolion, disgyblion a theuluoedd mewn cysylltiad â phresenoldeb (caiff ei adnabod yn lleol fel swyddog presenoldeb neu gynhwysiant) |
| **Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA)** | Gwasanaeth awdurdod lleol sy'n cefnogi presenoldeb yn yr ysgol ac yn mynd i'r afael ag absenoldeb |
| **Hysbysiad Cosb Benodedig (HCB)** | Dirwy gyfreithiol sy'n cael ei rhoi i riant am fethu sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd |
| **Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd** | Staff dynodedig sy'n cefnogi perthnasoedd rhwng teuluoedd, ysgolion a chymunedau i wella dysgu, lles a phresenoldeb |
| **Gweithio amlasiantaethol** | Cydweithio rhwng gwasanaethau i gefnogi disgyblion a theuluoedd |
| **Absenoldeb parhaus** | Yn colli 10% neu fwy o sesiynau ysgol |
| **Grant Datblygu Disgyblion** | Cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i ysgolion a lleoliadau addysgol i wella cyrhaeddiad addysgol disgyblion dan anfantais |

| | |
|---|---|
| **Arfer berthynol** | Dull sy'n blaenoriaethu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion a theuluoedd |
| **Dyletswyddau statudol** | Cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion ac awdurdodau lleol |
| **Ymyrraeth statudol** | Camau gweithredu ffurfiol i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Bond, C., Munford, L., Birks, D., Shobande, O., Denny, S., Hatton-Corcoran, S., Qualter, P., Wood, M. L., et al (2024). *A country that works for all children and young people: An evidence-based plan for improving school attendance. Doi: 10.48785/100/288*. (Darllenwyd: 24 Hydref 2025)

Estyn (2025*) Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – diweddariad ar gynnydd*. (Darllenwyd: 24 Hydref 2025)

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2022) Working with parents to support children's learning: Guidance report. London: Education Endowment Foundation. (Darllenwyd: 15 Mai 2026)

ICF Consulting (2018) *Evaluation of Fixed Penalty Notices issued for regular non-attendance at school*. (Darllenwyd: 13 Tachwedd 2025)

Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2025) *Voices from the Classroom – Understanding how secondary schools support pupils returning from absence*. (Darllenwyd: 30 Medi 2025).

Parentkind (2024) *School attendance in Wales: suggestions for support from parents and carers*. (Darllenwyd: 30 Medi 2025)

Parentkind (2023) *Understanding pupil absence in schools in Wales*. (Darllenwyd: 30 Medi 2025)

Senedd Cymru (2017/2024) *Absenoldeb disgyblion ar gyfer gwyliau yn ystod tymor yr ysgol*. (Darllenwyd: 13 Tachwedd 2025)

Llywodraeth Cymru (2013) *Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd | LLYW.CYMRU*. (Darllenwyd: 13 Tachwedd 2025)

Llywodraeth Cymru (2017) Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg: Pecyn cymorth ymarferol i helpu i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg. (Darllenwyd: 05.05.2026)

Llywodraeth Cymru (2023) *Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr*. (Darllenwyd: 30 Medi 2025)

Llywodraeth Cymru (2025) *Atodiad 5: Datblygu trefniadau ymgysylltu amlasiantaethol mewn Ysgolion Bro: Gwybodaeth i helpu ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth ymgysylltu amlasiantaethol. Cyhoeddwyd yn wreiddiol: 5 Mawrth 2025*. (Darllenwyd: 16 Hydref 2026)

Llywodraeth Cymru (2025) *Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion: Medi 2023 i Awst 2024.* (Darllenwyd: 30 Medi 2025)

Llywodraeth Cymru (2026) *Gwerthusiad o Brosesau Cyllido Ysgolion Bro* Ymchwil Gymdeithasol, rhif 23/2026. (Darllenwyd: 25 Mawrth 2026)